This document is also available in English

**CYNNWYS**

**ADRAN 8**


**8. Y Pwyllgor Safonau**

8.1 Aelodaeth
8.2 Cyfnod yn y Swydd
8.3 Cworwm
8.4 Pleidleisio
8.5 Cadeirio'r Pwyllgor
8.6 Rôl a Swyddogaeth
8.7 Adroddiad Blynyddol
8.8 Rhaglen Waith
8.9 Cyd-bwyllgor Safonau
8.10 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau
8.11 Cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau
8.12 Is-bwyllgor y Pwyllgor Safonau
8.13 Is-bwyllgor Goddefebau
8.14 Gwrandawiadau'r Pwyllgor Safonau


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Pwyllgor Safonau Gweithdrefnau - Gwrandawiadau


**ADRAN 9**


**9. Pwyllgorau Rheoleiddio**

9.1 Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill
9.2 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
9.3 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
9.4 Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau eraill
9.5 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau


**Atodiadau**


Atodiad 1: Cylch Gorchwyl - Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Atodiad 2: Y Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Atodiad 3: Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Eraill
Atodiad 4 - Protocol ar Gyfer Aelodau Pwyllgor Trwyddedu Penodedig y Cyngor

**ADRAN 10**

**10. Trefniadau ar y Cyd**

10.1 Cyflwyniad
10.2 Trefniadau i hyrwyddo lles
10.3 Trefniadau ar y Cyd
10.4 Hawl i Wybodaeth
10.5 Dirprwyaeth i ac oddi wrth awdurdodau lleol eraill
10.6 Contractio

**ADRAN 11**

11. **Cydbwyllgorau Corfforedig**

11.1 Cyflwyniad
11.2 Cydbwyllgorau Corfforedig

## ADRAN 8 - Y PWYLLGOR SAFONAU

Mae’r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Safonau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, nodir y manylion isod. Mae’r holl Aelodau’n ddarostyngedig i’r Cod Ymddygiad, yn unol ag Atodiad 1.

### 8.1 Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys 9 Aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

8.1.1 Pum Aelod "annibynnol", nad ydynt naill ai'n Gynghorydd neu’n Swyddog nac yn briod i Gynghorydd neu Swyddog o'r Cyngor hwn neu unrhyw Awdurdod perthnasol arall fel y'i diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sydd wedi’u penodi yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd);

8.1.2 Tri Chynghorydd, heblaw’r Arweinydd a dim mwy nag un Aelod o’r Cabinet; ni ddylent fod o’r un grwpiau gwleidyddol.

8.1.3 Un Aelod o Gyngor Cymuned. Ni fydd aelod pwyllgor y cyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud â'i gyngor cymuned ef/hi yn cael ei ystyried;

Ni all cyn Cynghorwyr a Swyddogion y Cyngor hwn fod yn aelodau annibynnol o’r Pwyllgor Safonau. Ni all cyn Gynghorwyr a swyddogion awdurdodau perthnasol eraill fod yn aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau nes bydd 12 mis wedi pasio ers iddynt fod yn Gynghorydd neu swyddog.

Nid oes raid i Bwyllgorau Safonau gydymffurfio â’r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn Adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

### 8.2 Cyfnod yn y Swydd

8.2.1 Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o rhwng pedair a chwe blynedd a gellir eu penodi am dymor pellach.

8.2.2 Bydd gan aelodau o’r awdurdod lleol sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau a'r aelod pwyllgor cymunedol gyfnod mewn swydd o ddim mwy na'r cyfnod tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf ar gyfer yr awdurdod hwnnw yn dilyn penodiad yr aelod i'r pwyllgor. Gellir eu hailbenodi am un tymor olynol pellach. Mae aelod yn peidio â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau os yw'n peidio â bod yn aelod o'r Cyngor neu'r cyngor cymuned perthnasol.

8.2.3 Bydd cyfnod mewn swydd aelod o’r Pwyllgor Safonau sy’n dechrau neu’n dod i ben drwy gyfeirio at etholiadau llywodraeth leol cyffredin mewn unrhyw flwyddyn yn dechrau neu’n dod i ben ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiadau hynny.

**8.3 Cworwm**

8.3.1. Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

(i) o leiaf 3 Aelod yn bresennol; ac

(ii) mae o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

8.3.2 (i) Ar gyfer adroddiad sydd wedi cael ei gyfeirio at y Swyddog Monitro gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a bod angen i'r Pwyllgor Safonau gynnal gwrandawiad yn unol â'r Gweithdrefnau Pwyllgor Safonau - Gwrandawiadau (atodiad 1 o'r adran hon) mae'n rhaid i gworwm y Pwyllgor Safonau fod gydag o leiaf pum aelod, a bod o leiaf hanner yr aelodau hynny sy'n bresennol yn aelodau annibynnol.

(ii) Ni all unrhyw un o'r aelodau sy'n gwrando ar fater sy'n berthnasol i baragraff 8.3.2(i) fod yn gysylltiedig (yn flaenorol) â'r materion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**8.4 Pleidleisio**

Yn ogystal â Chynghorwyr Bwrdeistref Sirol Conwy (sydd wedi'u penodi'n aelodau'r Pwyllgor Safonau), bydd gan Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cyngor Cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**8.5 Cadeirio'r Pwyllgor**

Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn Gadeirydd ac Is-Gadeirydd. (Os bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol, gall aelod annibynnol arall y mae aelodau'r Pwyllgor Safonau yn ei benodi lywyddu.)

**8.6 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a swyddogaethau canlynol:

8.6.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

8.6.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn Cod Ymddygiad Aelodau;

8.6.3 cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;

8.6.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;

8.6.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;

8.6.6 rhoi goddefebau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig o ofynion sy'n ymwneud â chysylltiadau a bennir yng Nghod Ymddygiad Aelodau;

8.6.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro am

unrhyw gwyn a wnaed iddo ef / iddi hi neu am unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

8.6.8 cynnal adolygiad blynyddol o ddarganfyddiadau o gamweinyddu yn erbyn y Cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac adrodd i'r Cyngor am ei safbwyntiau (os oes rhai);

8.6.9 swyddogaethau penodol yn ymwneud â lefelau cynrychiolaeth ac ad-dalu costau cynrychiolaeth dan indemniadau a roddir i Swyddogion;

8.6.10 ystyried pob cais am indemniad costau yn unigol i Aelodau, yn dilyn honiadau o dorri'r Cod Ymddygiad a phenderfynu a ddylid rhoi indemniad o gwbl. Os bydd indemniad yn cael ei roi, bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu ar faint yr indemniad hwnnw hyd at uchafswm o £20,000. Ni fydd unrhyw Aelod yn cael dau indemniad neu fwy, os byddai'r rheiny yn gyfanswm o fwy na £30,000 mewn un tymor o'r Cyngor.

8.6.11 mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, ystyried materion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gynnal safonau ymddygiad uchel y Cyngor, ei aelodau ac aelodau cyfetholedig. (Mae hyn yn cynnwys rolau cymeradwy dan y Protocol ar gyfer Perthynas rhwng Aelod / Swyddog a'r Protocol ar gyfer Ymgysylltu ag Aelodau Lleol);

8.6.12 monitro Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn rheolaidd.

**8.7 <u>Adroddiad Blynyddol</u>**

8.7.1 Cyn gynted â phosibl ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Pwyllgor Safonau lunio adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

8.7.2 Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys:-

(a) disgrifiad o sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau;

(b) crynodeb o unrhyw adroddiadau ac argymhellion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau dan Bennod 3 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) crynodeb o'r camau gweithredu mae'r Pwyllgor Safonau wedi'u cymryd yn dilyn ystyried yr adroddiadau a'r argymhellion y cyfeiriwyd atynt yn (b) uchod;

(d) crynodeb o unrhyw hysbysiadau a roddwyd i'r Pwyllgor Safonau dan Bennod 4 Rhan 4 Deddf Llywodraeth Leol 2000; ac

(e) asesiad y Pwyllgor Safonau o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grwpiau ac i gydweithredu â'r Pwyllgor Safonau wrth gyflawni ei swyddogaethau; ac

(f) unrhyw argymhellion y mae’r Pwyllgor Safonau yn ystyried yn briodol i’w gwneud i’r Cyngor am unrhyw fater sydd o fewn swyddogaethau’r Pwyllgor.

**8.8 Rhaglen Waith**

Bydd y Pwyllgor yn paratoi rhaglen waith, a fydd yn cael ei hadolygu a'i chymeradwyo ym mhob cyfarfod Pwyllgor.

**8.9 Cyd-bwyllgor Safonau**

Gall y Cyngor sefydlu cyd-bwyllgor safonau gydag un awdurdod lleol arall neu fwy er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau.

**8.10 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau**

8.10.1 Bydd Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 yn berthnasol i gyfarfodydd Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

8.10.2 Wrth ystyried ymddygiad Cynghorwyr unigol, bydd y gweithdrefnau a amlinellir yn Atodiad 2 i Adran 19 yn berthnasol.

**8.11 Cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau**

(i) Bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob blwyddyn galendr.

(ii) Bydd y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd yn mynychu bob cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau ac ni chynhelir unrhyw fusnes yn absenoldeb y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd.

**8.12 Is-bwyllgor y Pwyllgor Safonau**

Gall y Pwyllgor Safonau greu is-bwyllgor i gyflawni unrhyw swyddogaethau a nodir ym Mharagraff 8.6.

**8.13 Is-bwyllgor Goddefebau**

(i) Bydd yr Is-bwyllgor Goddefebau yn cynnwys 3 Aelod o’r Pwyllgor Safonau, ac ni fydd mwy nag un Aelod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

(ii) Rhaid i Gadeirydd yr Is-bwyllgor fod yn Aelod Annibynnol.

(iii) I ystyried ceisiadau am oddefebau a gyflwynwyd gan Gynghorwyr Sir, Cynghorwyr Tref a Chymuned ac Aelodau Cyfetholedig.

**8.14 Gwrandawiadau’r Pwyllgor Safonau**

Cynhelir y rhain yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

**ADRAN 8 - ATODIAD 1**

**<u>PWYLLGOR SAFONAU GWEITHDREFNAU - GWRANDAWIADAU</u>**

**Deddfwriaeth : Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000**

Cyfrwng Statudol : Rheoliadau Ymchwilio Llywodraeth Leol (Swyddogaeth Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, SI No 2000/2281(W.171)

1. <u>Rôl y Pwyllgor Safonau</u>

   Bydd y Pwyllgor safonau yn derbyn gan y Swyddog Monitro, unai :

   a) Adroddiadau am ymchwiliadau a gwblhawyd gan y Swyddog Monitro gydag argymhellion, os yn addas, neu
   b) Adroddiadau am ymchwiliadau a gwblhawyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

   Os bydd hynny'n addas, gall y Swyddog Monitro hefyd gynnwys argymhellion gydag adroddiad yr Ombwdsmon.

   [Rheoliad 3(1) a 3(2)]

2. <u>Copïau o'r Adroddiadau</u>

   Yn ogystal â chyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Safonau, bydd y Swyddog Monitro yn anfon copi i'r canlynol :-

   a) Y sawl sydd yn destun yr ymchwiliad;
   b) Y sawl sydd wedi gwneud yr honiad.

   [Rheoliad 6(b) a (c)]

3. <u>Penderfyniad Cyntaf</u>

   Wedi derbyn yr adroddiad, bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Safonau benderfynu un ai :

   a) Nad oes unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â'r Cod Ymarfer perthnasol. Os mai dyna'r sefyllfa, bydd yn rhaid i'r Pwyllgor hysbysu :
      (i) Y sawl a oedd yn destun yr ymchwiliad;
      (ii) Y sawl a wnaeth yr honiad;
      (iii) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; neu
   b) Y dylid rhoi i'r sawl sydd yn destun yr ymchwiliad gyfle i gyflwyno achos - unai ar lafar neu yn ysgrifenedig - o safbwynt canfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef/ei bod hi wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer perthnasol.

[Rheoliad  7(a) a (b)]

4. Presenoldeb Swyddog Ymchwilio.

Efallai y bydd y Pwyllgor angen i'r Swyddog Ymchwilio (boed yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ei g/chynrychiolydd, neu'r Swyddog Monitro) i fynychu i'r diben o gyflwyno eu hadroddiad  neu egluro unrhyw faterion sydd ynddo (ond nid fel arall).

[Rheoliad 8(2)]

5. Presenoldeb yr Achwynydd

Bydd hawl i'r sawl sydd yn gwneud yr honiad i roi ei achos, ar lafar neu yn ysgrifenedig, i'r Pwyllgor Safonau ond nid oes rheidrwydd arno i wneud hyn.

6. Cwestiynau

Bydd gan Aelodau'r Pwyllgor yr hawl i ofyn cwestiynau perthnasol i'r sawl sydd yn destun yr ymchwiliad a'r achwynydd os yw ef/hi yn bresennol yn y Pwyllgor.

7. Y drefn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau

Y bwriad yw i wrandawiadau fabwysiadu trefn chwilysol yn hytrach na gwrthwynebol. Gyda threfn o'r fath, derbynnir y ffeithiau yn adroddiad y Swyddog Archwilio fel rhai cywir ac ni fydd angen ail-drafod yr archwiliad a gynhyrchodd yr adroddiad.  Bydd y Pwyllgor Safonau yn canolbwyntio ar y materion sydd un ai yn aneglur neu nad oes cytundeb arnynt ac, os caiff yr honiad ei brofi, ar y gosb berthnasol.

Yn y cyfarfod, y drefn arferol fydd :

- Cyflwyno'r adroddiad gan y Swyddog Ymchwilio (os yw'n bresennol).
- Bydd cyfle i'r achwynydd annerch y Pwyllgor a galw tystion.
- Bydd cyfle i'r aelod gwestiynu'r achwynydd a'r tystion.
- Bydd cyfle i'r aelodau'r Pwyllgor gwestiynu'r achwynydd a'r tystion.
- Bydd cyfle i'r aelod dan sylw annerch y Pwyllgor a galw tystion.
- Bydd cyfle i'r achwynydd gwestiynu'r aelod a'r tystion
- Bydd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor gwestiynu'r aelod dan sylw a'r tystion.
- Bydd gan yr achwynydd gyfle i grynhoi.
- Bydd gan yr aelod dan sylw gyfle i grynhoi.
- Bydd y Pwyllgor yn ymneilltuo i drafod y mater ac i lunio penderfyniad.
- Bydd y Pwyllgor yn dod i benderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith.

8. Peidio â rhoi Achos Gerbron

Os yw'r sawl sydd yn destun yr ymchwiliad yn methu â rhoi ei achos gerbron yn unol â pharagraff 3(b) uchod, yna :

a) Oni bai eu bod wedi eu bodloni bod achos digonol am y methiant, gall y Pwyllgor ystyried adroddiad y Swyddog Ymchwilio a dod i benderfyniad heb glywed yr achos; neu
b) gall y Pwyllgor ganiatáu cyfle pellach i'r unigolyn hwnnw roi ei achos gerbron.

Rheoliad 8(4)]

9. Penderfyniadau

Bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i un o'r penderfyniadau canlynol :

a) Nid oes tystiolaeth o fethu â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac nid oes angen unrhyw gamau pellach;
b) Nid oedd cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ond nid oes angen unrhyw gamau pellach ychwaith;
c) Nid oedd cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer a dylid disgyblu'r aelod neu'r aelod cyfetholedig (neu gyn aelod neu gyn aelod cyfetholedig); neu
d) Nid oedd cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer a dylid gwahardd neu rannol wahardd yr aelod neu'r aelod cyfetholedig o fod yn aelod neu aelod cyfetholedig am gyfnod o hyd at 6 mis.

[Rheoliad 9(1)]

10. Adroddiad ar y Penderfyniad

Bydd y Pwyllgor Safonau yn hysbysu'r canlynol o'u penderfyniad o fewn 5 diwrnod gwaith, gan roi rhesymau dros y penderfyniad :

a) y sawl sydd yn destun yr archwiliad.
b) y sawl a wnaeth yr honiad
c) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

[Rheoliad 9(3)]

11. Cychwyn Gwaharddiad

Bydd cyfnod o waharddiad neu waharddiad rhannol yn cychwyn ar y dydd yn dilyn yr olaf o'r canlynol :

a) Diwrnod olaf y cyfnod a ganiateir i gofnodi apêl (sef 21 diwrnod wedi derbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau);
b) Derbyn hysbysiad bod unrhyw apêl wedi ei chwblhau;
c) Penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau, wedi ei lunio yn dilyn argymhelliad gan Banel Apêl (gweler paragraff 13(a)(ii) isod).

[Rheoliad 8(5) a (6)]

12. Hawl i Apêl

Pan lunnir penderfyniad o dan baragraffau 9(b) (c) neu (d), gall yr Aelod y dyfarnwyd yn ei erbyn apelio i Dribiwnlys Apêl sef aelodau dethol o Banel Dyfarnu Cymru.

Rhaid cyflwyno'r apêl o fewn 21 diwrnod o dderbyn hysbysiad o benderfyniad y Pwyllgor safonau.

[Rheoliad 10(1) a (2)]

13. Canlyniad yr Apêl

Ar ddiwedd apêl, bydd y Tribiwnlys unai :

a) yn cefnogi penderfyniad y Pwyllgor Safonau bod y Cod Ymarfer wedi ei dorri; ac
   (i) yn cefnogi'r gosb a orfodwyd; neu
   (ii) yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gydag argymhelliad i osod cosb wahanol; neu
b) yn gwrthod penderfyniad y Pwyllgor Safonau bod unrhyw un wedi torri'r Cod Ymarfer

Ac yna mae'n ofodol iddo hysbysu'r canlynol o'r canlyniad, gan roi r hesymau dros y penderfyniad:

(1) Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
(2) y Pwyllgor Safonau
(3) y sawl sydd yn destun yr ymchwiliad

[Rheoliad 12]

14. Adolygu'r Gosb

Os bydd y Tribiwnlys Apêl yn llunio penderfyniad o dan baragraff 13(a)(ii) uchod, bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i benderfynu os ydyw am amddiffyn ei benderfyniad gwreiddiol neu a yw am dderbyn argymhelliad y Tribiwnlys.

Bydd y Swyddog Monitro, ar ran y Pwyllgor Safonau, yn hysbysu Cadeirydd y Panel Dyfarnu beth yw penderfyniad y Pwyllgor Safonau.

[Rheoliad 9(2)]

15. Adroddiad y Pwyllgor Safonau

O fewn 14 diwrnod neu'r dyddiad hwyraf wedi :

(i) terfyn yr amser a ganiatawyd i gyflwyno apêl (gweler paragraff 12 uchod)
(ii) derbyn rhybudd o derfyn apêl (gweler paragraff 13 uchod)
(iii) penderfyniad pellach gan y Pwyllgor Safonau dan baragraff 14

bydd y Pwyllgor Safonau yn peri i adroddiad ar ganlyniad ei drafodaethau gael ei baratoi. Anfonir yr adroddiad hwnnw at :

(i) yr Ombwdsmon

(ii) y Swyddog Monitro
(iii) y sawl oedd yn destun y gwyn
(iv) y sawl a wnaeth yr honiad

[Rheoliad 13]

16. Cyhoeddi

Wedi derbyn adroddiad y Pwyllgor Safonau, bydd y Swyddog Monitro :

i) am gyfnod o 21 diwrnod, yn cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Cyngor y Fwrdeistref Sirol ac yn darparu copïau ar gyfer eu harchwilio gan y cyhoedd yn ystod oriau swyddfa arferol. Gellir gwneud copïau o'r adroddiad neu rannau ohono;
ii) yn darparu copi o'r adroddiad ar gais i unrhyw un, am ffi resymol ;
iii) o fewn 7 niwrnod wedi derbyn yr adroddiad, yn rhoi rhybudd cyhoeddus, mewn papurau lleol, bod yr adroddiad ar gael fel y nodir uchod.

17. Cynrychiolaeth

Gall unrhyw un sydd yn dod gerbron y Pwyllgor Safonau gael ei gynrychioli gan fargyfreithiwr, cyfreithiwr neu unrhyw un arall.

[Rheoliad 14]

18. Costau

Nid oes gan y Pwyllgor Safonau unrhyw rym i ganiatáu unrhyw gostau na threuliau a fydd yn codi o ganlyniad i'w weithgareddau.

[Rheoliad 15]

## ADRAN 9 - PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO

### 9.1 Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill

9.1.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

9.1.2 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgorau Rheoleiddio ac Eraill wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adran hon.

### 9.2 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

2.2.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifiwyd yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn ac yn unol ag adrannau 81- 87 o'r Mesur.

2.2.2 Bydd y Pwyllgor ar ffurf dau draean yn Gynghorwyr a thraean yn aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor (aelodau lleyg). Ni all mwy nag un aelod o'r Pwyllgor fod yn aelod o'r Cabinet, ac ni all fod yn Arweinydd neu Gynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gweithredol, ond gall y Pwyllgor weithredu heb Aelodau Cabinet neu Gynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gweithredol yn rhan o'r aelodaeth.

2.2.3 Bydd y Cyngor yn penodi Aelodau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol.

2.2.4 Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu penodi gan y pwyllgor. Mae'n rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg. Ni all yr unigolyn a benodir fel Is-gadeirydd fod yn Aelod o'r Cabinet nac yn Gynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gweithredol.

2.2.5 Bydd cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cael ei gadeirio:

(a) gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, neu

(b) os yw Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n absennol, gan yr Is-gadeirydd.

(c) Os yw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n absennol, gall y Pwyllgor benodi aelod o'r Pwyllgor i gadeirio'r cyfarfod, ond ni chânt fod yn aelod o Gabinet y Cyngor na Chynorthwy-ydd y Pwyllgor Gweithredol.

2.2.6 Caiff aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bleidleisio ar unrhyw fater sydd ger bron y Pwyllgor.

2.2.7 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

## 9.3 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

9.3.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn.

2.3.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys Aelodau sy'n Gynghorwyr ond dim mwy nag un Aelod o'r Cabinet, ac ni chaiff fod yn Arweinydd.

2.3.3 Bydd y Cyngor yn penodi Aelodau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol.

2.3.4 Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei benodi gan y Cyngor Llawn ac ni chaiff fod yn Aelod Cabinet.

2.3.5 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

## 9.4 Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau eraill

2.4.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgorau eraill y mae'n barnu sy'n briodol i arfer ei swyddogaethau. Bydd y rhain yn cynnwys Pwyllgor Cynllunio a Thrwyddedu.

2.4.2 Gall unrhyw bwyllgor a benodwyd gan y Cyngor benodi Is-bwyllgorau a phaneli ychwanegol ar unrhyw adeg trwy gydol y flwyddyn. Bydd y cylch gorchwyl a'r pwerau a ddirprwyir iddynt yn eglur ac o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgorau penodi.

2.4.3 Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgorau Trwyddedu a Phwyllgorau eraill wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

## 9.5 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau

2.5.1 Bydd Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor yn Adran 4 yn berthnasol, heblaw fel y nodir ym mharagraff 9.5.2 isod.

2.5.2 Bydd cworwm i gyfarfod Pwyllgor Cynllunio os yw o leiaf hanner cyfanswm yr aelodau Pwyllgor yn bresennol, wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyflawn agosaf.

**ADRAN 9 - ATODIAD 1**

## Cylch Gorchwyl - Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### Datganiad o ddiben

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn rhan allweddol o lywodraethu corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar yr archwilio, sicrwydd a threfniadau adrodd sy'n sail i lywodraethu da a safonau ariannol.

2. Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw i ddarparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r cyngor llawn *('y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu')* ynglŷn â digonoldeb y fframwaith rheoli risg a'r amgylchedd rheoli mewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o lywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheoli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn goruchwylio'r prosesau adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwylio archwilio mewnol ac allanol, gan helpu i sicrhau fod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol mewn grym.

3. Mae yna wahaniaeth clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rôl y pwyllgorau craffu. Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ceisio sicrwydd fod systemau rheoli mewnol y cyngor yn gweithio, yn hytrach na'r craffu gwirioneddol ar weithgareddau a neu bolisïau.

### Cyfansoddiad a threfniadau

4. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd o dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae'n bwyllgor cyfansoddiad llawn o'r Cyngor yn gweithredu ar lefel strategol. Fe fydd y pwyllgor yn cynnal ei fusnes yn anwleidyddol.

5. Mae aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig, sy'n cyfrif am ddwy ran o dair o'r pwyllgor, ac mae traean yn aelodau lleyg wedi eu penodi gan y cyngor llawn yn ei gyfarfod blynyddol. Dim ond un o aelodau'r pwyllgor all fod o weithrediaeth y cyngor (y Cabinet) ac ni ddylai hwn fod yr arweinydd. Fe fydd aelodau lleyg yn cael eu penodi am dymor y Cyngor.

6. Ni all aelodau lleyg fod:

   - Yn aelod presennol neu'n swyddog neu'n aelod neu'n swyddog o fewn y 12 mis diwethaf; neu
   - Yn briod neu'n bartner sifil aelod neu swyddog.

7. Mae nifer o newidiadau hefyd wedi eu gwneud i drefniadau'r pwyllgor.

- Mae gan y pwyllgor ddyletswydd i benodi ei gadeirydd a'i ddirprwy gadeirydd ei hun.
- Mae'n rhaid i gadeirydd y pwyllgor fod yn aelod lleyg.
- Ni ddylai'r dirprwy gadeirydd fod yn aelod o Weithrediaeth yr Awdurdod Lleol.
- Yn absenoldeb y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd dim ond y rhai nad ydynt yn aelod o'r weithrediaeth all gadeirio cyfarfodydd.

8. Cymeradwyodd y Cyngor ar 3 Mawrth 2022 fod maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei osod ar rif sefydlog o gyfanswm o 12 aelod gydag 8 cynghorydd a 4 aelod lleyg.

9. Fe fydd aelodau yn derbyn hyfforddiant parhaus yn eu rôl a sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

10. Fe fydd aelodau'r pwyllgor yn ethol cadeirydd ac is gadeirydd y pwyllgor. Mae gan holl aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau lleyg, yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater a gaiff ei ystyried gan y pwyllgor.

11. Yn unol â Deddfwriaeth Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o'r Cyngor y gofynnir iddo fynychu Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Fe all y pwyllgor wahodd unigolion eraill i fynychu gerbron y pwyllgor, ond nid yw unrhyw un arall a wahoddir i fynychu o dan unrhyw orfodaeth i wneud hynny.

12. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ddarostyngedig i drefniadau arferol yn ymwneud â bod yn agored a thryloywder. Fe fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn gyhoeddus, a chaiff rhaglenni ac adroddiadau eu cyhoeddi ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw pan gaiff 'eitemau eithriedig' eu hystyried.

13. Fe fydd y pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn a bydd hefyd yn cyfarfod os yw'r cyngor llawn yn penderfynu hynny, neu os yw o leiaf traean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn am i gyfarfod gael ei gynnal. Fe all y pwyllgor gyfarfod pryd bynnag y bydd yn dewis.

14. Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fe fydd y pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r Cyfarwyddwr Strategol a fydd, o ganlyniad, â mynediad uniongyrchol i'r pwyllgor.

15. Fe fydd Pennaeth Archwilio Mewnol yn mynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor.

16. Fe all cyfarfodydd anffurfiol gyda'r archwilwyr mewnol ac allanol gael eu cynnal yn breifat.

**Trefniadau atebolrwydd**

17. Fe fydd y pwyllgor yn adrodd i'r *'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu'* (y cyngor llawn) a hynny yn flynyddol ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwneud â digonoldeb ac effeithiolrwydd eu fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

18. Fe fydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn yn flynyddol ynglŷn â pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r cylch gorchwyl hwn ac effeithiolrwydd y pwyllgor o ran diwallu ei ddiben a'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Fe fydd hunan-asesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith a chynlluniau hyfforddi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bydd yn hysbysu adroddiad blynyddol y pwyllgor.

**Llywodraethu**

19. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r cyngor ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

20. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i ystyried p'run ai a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg yn iawn ac yn cefnogi sicrwydd, gan gymryd i ystyriaeth farn archwilio mewnol ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith lywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth.

21. Fe fydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Fe fydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adrodd cyhoeddus effeithiol i fudd-ddeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, fe fydd yn sicrhau fod yna drefniadau digonol mewn grym i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a chydymffurfiaeth gyfreithiol ar bob lefel.

22. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu trefniadau partneriaeth gan gynnwys digonoldeb trefniadau llywodraethu a rheoli risg, gan sicrhau fod atebolrwydd i fudd-ddeiliaid, tryloywder llunio penderfyniadau a safonau uniondeb yn cael eu cynnal.

23. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau rhannu pryderon y cyngor.

**Adrodd ariannol**

24. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu materion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â nhw.

25. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo ar ran y cyngor ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagymadrodd eglurhaol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb gyda pherfformiad ariannol, addasrwydd polisïau a thriniaethau cyfrifo a chydymffurfedd â hwy a phrif feysydd dyfarnu.

26. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r *'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu'* ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a ph'run ai a oes angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.

**Rheoli Trysorlys**

27. Mae'r Cyngor wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau monitro effeithiol o'r strategaeth a'r polisïau yn ymwneud â rheoli'r trysorlys. Fe fydd y pwyllgor yn ymgymryd â'r rôl yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

28. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli'r trysorlys er mwyn bod yn fodlon fod y rheolaethau yn foddhaol. Fe fydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau, materion a thueddiadau. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu proffil risg a phrosesau'r trysorlys, a sicrwydd ar reoli trysorlys.

**Gwerth am arian**

29. Fe fydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau fod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

30. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu p'run ai a yw yn unol ag amcanion llywodraethu a bydd y sicrwydd ar hyn yn sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

31. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn benodol adroddiadau gwella blynyddol Archwilio Cymru.

**Fframwaith sicrwydd**

32. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor. Fe fydd hyn yn cefnogi cymeradwyaeth y pwyllgor o gynllun seiliedig ar risg archwilio

mewnol drwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar Archwilio Mewnol am ei ofynion sicrwydd.

33. Fe fydd y pwyllgor yn sicrhau fod yna eglurder o ba sicrwydd a gaiff ei ddarparu, a bod yna ddyraniad clir o gyfrifoldeb ar gyfer darparu sicrwydd gan osgoi dyblygu.

**Rheoli risg**

34. Fe fydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol a fydd yn sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg yn y cyngor. Yn benodol fe fydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu yn ymarferol.
- Goruchwylio integreiddio rheoli risg i broses lywodraethu a llunio penderfyniadau y sefydliad.
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu ac arwain rheoli risg, gan gynnwys y broses.
- Adolygu'r proffil risg, cadw'n gyfredol gyda meysydd allweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol mawr neu risgiau prosiectau mawr.
- Ceisio sicrwydd fod y rheolwyr yn meddu ar risgiau ac yn eu rheoli yn effeithiol a phriodol.
- Ceisio sicrwydd fod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau'n cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn a monitro risgiau a nodir gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio i'r broses rheoli risg.
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arfer da ym maes ymarfer rheoli risg.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

35. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu ymateb yr Awdurdod i'w ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i weithredu yn unol â'r egwyddor cynaliadwyedd a sicrhau fod hyn yn llywio gwneud penderfyniadau a gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Fe fydd y pwyllgor yn sicrhau fod yr Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

**Cwynion**

36. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Fe fydd y pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

**Rheolaethau**

37. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu effeithiolrwydd rheolaethau mewnol ac yn monitro gweithredu camau y cytunwyd arnynt.

**Atal twyll a llygredigaeth**

38. Fe fydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau yn ymwneud â thwyll a'r niwed posibl i'r cyngor o dwyll a llygredigaeth.

39. Fe fydd yn adolygu'r proffil risg twyll i ddeall y lefel o risg yn ymwneud â thwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau ar gyfer yr amgylchedd rheoli ehangach.

40. Fe fydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth gwrth-dwyll, camau gweithredu ac adnoddau i sicrhau ei fod yn diwallu'r arfer a argymhellir, safonau llywodraethu a deddfwriaeth.

41. Fe fydd yn goruchwylio unrhyw feysydd allweddol o dwyll a nodir ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau o ran rheoli.

**Archwilio Mewnol**

42. Mae gofyniad pendant yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

43. Mae rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol yn cynnwys:

    a. cefnogi annibyniaeth archwilio mewnol
    b. goruchwylio ei wrthrychedd, perfformiad a'i broffesiynoldeb
    c. cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol
    d. hyrwyddo'r defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

44. Fe fydd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas gweithgaredd archwilio mewnol, ei awdurdod a'i gyfrifoldeb.

45. Fe fydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond nid yn cyfarwyddo) y cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg, gan gynnwys gofynion adnoddau archwilio mewnol. Fe fydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fo'n adolygu'r cynllun archwilio mewnol seiliedig ar risg. Fe fydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau dros dro arwyddocaol i'r cynllun a'r gofynion o ran adnoddau.

46. Fe fydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i’r rheolwyr a Phennaeth Archwilio Mewnol i bennu a oes yna unrhyw gwmpas amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

47. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Bennaeth Archwilio Mewnol ar berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau Archwilio Mewnol.

48. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys prif ganfyddiadau, materion o bryder a chamau gweithredu mewn llaw o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Fe fydd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn.

49. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol a’r farn ar ddigonoldeb ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Cyngor, rheoli risg a rheolaeth ynghyd â chrynodeb o’r gwaith sy’n cefnogi’r farn honno. Fe fydd y rhain yn cynorthwyo’r pwyllgor i adolygu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

50. Fe fydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu’r camau gweithredu a gaiff eu cymryd pan fo’r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i’r casgliad fod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i’r awdurdod neu fod yna bryderon ynglŷn â chynnydd gyda gweithredu’r camau y cytunwyd arnynt.

51. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw’r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a’r Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol, gan ystyried p’run ai yw’r diffyg cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

52. Fe fydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ac yn benodol at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol a gaiff ei gynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Fe fydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

53. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd Archwilio Mewnol i gefnogi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gofyn am wneud hynny.

54. Fe fydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu cyfathrebu effeithiol gyda Phennaeth Archwilio Mewnol, drwy gael mynediad rhydd a diymatal i gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae’r ymgysylltiad rhwng y Pennaeth Archwilio Mewnol a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol.

**Archwilio allanol**

55. Fe fydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Fe fydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

56. Fe fydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, gan wneud sylw ar gwmpas a dyfnder gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Fe fydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

57. Fe fydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell ar effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

58. Fe fydd yna gyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwilydd allanol, yn annibynnol i'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â nhw.

**Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

59. Fe fydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill. Mewn perthynas â'r rhain, fe fydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu arall wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**ADRAN 9 – ATODIAD 2**
**Cylch Gorchwyl - Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

| **Y Corff sy'n Gwneud y Penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Swyddogaethau** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 17 Aelod, a<br><br>ddylai gynnwys cynghorwyr yn unig ac ni ddylai gynnwys mwy nac un aelod o'r Pwyllgor Gwaith (Cabinet), ac ni ddylai'r Arweinydd fod yn aelod.<br><br>Rhaid i'r Cyngor<br><br>Cyngor benodi cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac ni ddylai fod yn aelod o unrhyw grwpiau gwleidyddol sydd wedi eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith (Cabinet) a holl aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Lleol o ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>Parhau i adolygu darpariaeth staff, ystafelloedd ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol ar gyfer cyfrifoldebau'r swydd.<br><br>Creu adroddiadau, o leiaf unwaith y flwyddyn, i'r Cyngor mewn perthynas â'r materion hyn.<br><br>Derbyn ac ystyried Adroddiadau oddi wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cymru a gyflwynwyd dan Adran 16 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 ac i benderfynu pa gamau i'w cymryd ynglŷn ag unrhyw argymhellion sydd wedi eu cynnwys mewn Adroddiad fel hynny.<br><br>Ystyried a chael eu hymgynghori ar newidiadau bwriedig i Gyfansoddiad y Cyngor cyn i'r Cyngor eu hystyried. |

| **Y Corff sy'n Gwneud y Penderfyniad** | **Aelodaeth** | **Swyddogaethau** |
|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau – Absenoldebau Teuluol | 3 Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br><br>(ni ddylai gynnwys Cadeirydd y Cyngor) | Yn unol â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013:<br><br>Gwrando ar apeliadau gan Aelodau yn erbyn penderfyniadau o ran gwrthod absenoldeb teuluol.<br><br>Datrys anghydfodau, lle mae ar Aelod, sydd yn absennol, eisiau mynychu cyfarfod penodol, math o gyfarfod neu gyflawni dyletswydd benodol neu fath o ddyletswydd, a lle mae'r Cadeirydd wedi gwrthod y cais hwnnw. |

**ADRAN 9 – ATODIAD 4**

## PROTOCOL AR GYFER AELODAU PWYLLGOR TRWYDDEDU PENODEDIG Y CYNGOR

**DEDDF TRWYDDEDU 2003**

**DEDDF GAMBLO 2005**

### 1. Cyflwyniad

Mae Ddeddf Trwyddedu 2003 yn trosglwyddo cyfrifoldeb y swyddogaeth trwyddedu alcohol y mae'r Llysoedd Ynadon yn gyfrifol amdanynt i Awdurdodau Lleol, gan gyfuno'r systemau trwyddedu unigol ar gyfer gwirodydd ar un llaw, ac adloniannau cyhoeddus, sinemâu, theatrau a thai lluniaeth hwyr y nos ar y llaw arall, o dan un system drwyddedu unigol.

Dywedodd y Tasglu Gwell Rheoleiddio, a gynhaliodd adolygiad o gyfreithiau trwyddedu alcohol, a arweiniodd at y newidiadau hyn, nad oedd trwyddedu'n 'swyddogaeth farnwrol' ac awgrymodd ar y pryd bod yna dri rheswm cymhellol dros roi'r swyddogaeth drwyddedu i awdurdodau lleol: atebolrwydd, hygyrchedd a strategaethau cyfraith ac anrhefn.  Cydnabu hefyd nad oedd y system bresennol yn llwyddo i ddarparu atebolrwydd lleol am benderfyniadau trwyddedu, ac mae'n ei gwneud yn anodd i drigolion lleol ddylanwadu ar y broses.

Bydd llwyddiant y system drwyddedu yn ddibynnol ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr awdurdodau lleol.  Gan weithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu ar gyfer ardal y Fwrdeistref Sirol, cyflawnir y llwyddiant hwn yng Nghonwy drwy weithio mewn partneriaeth â Deiliaid Trwyddedau, Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon sydd â Diddordeb.

Bydd Aelodau Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio penodedig y Cyngor, wrth arfer eu swyddogaeth / dyletswyddau fel yr Awdurdod Trwyddedu, yn chwarae rhan hanfodol.

Mae'r broses gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â delio â cheisiadau a wrthwynebir yn hanfodol. Mae'n rhaid i Aelodau geisio sicrhau cydbwysedd wrth ystyried y cais ger eu bron, unrhyw sylwadau perthnasol a gyflwynir, a diddordeb y gymuned ehangach.

### 2. Buddiannau Personol ac Anffafriol

Mae'r protocol hwn yn darparu crynodeb o'r prif faterion sy'n berthnasol i'r Ddeddf Drwyddedu, a dyletswyddau Aelodau, ond ni ddylid ei ystyried ar ei ben ei hun.  Dylid cyfeirio hefyd at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau (mae cyngor pellach ar gael gan y Swyddog Monitro neu'r Pennaeth Gwasanaeth).

Mae Rhan III Cod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau, yn delio â Datgeliadau a Chofrestru Buddiannau. O ran y Ddeddf Drwyddedu, mae mater allweddol yn gysylltiedig â'r cwestiwn beth y dylid ei ystyried fel budd personol neu anffafriol.

Yn ogystal â'r rheolau arferol ar ddatgan buddiant, mae'n rhaid i Aelod ystyried a ellid rhoi'r argraff o ragfarn ar eu rhan. Nid yw'n gwneud gwahaniaeth a oes rhagfarn wirioneddol - y prawf yw "a fyddai unigolyn rhesymol yn credu y gallai fod rhagfarn"?
Oherwydd natur yr Is-bwyllgorau Trwyddedu, y mater allweddol ar gyfer sicrhau cyfreithlondeb y penderfyniad yw "argraff y cyhoedd o debygolrwydd rhagfarn anymwybodol". Mae hyn yn golygu ystyried cysylltiadau blaenorol Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu a'r safbwyntiau a fynegwyd ganddynt.

Er enghraifft, a ydych yn gwsmer rheolaidd yn y fangre dan sylw? Bydd angen i Aelodau Rhanbarth Etholiadol ystyried p'un a allai'r cyhoedd dybio bod ganddynt safbwyntiau penodol cyn unrhyw wrandawiad. Mewn amgylchiadau o'r fath, ni ddylai Aelodau gymryd rhan yn y gwrandawiad.

Ni ddylai Aelod sydd â buddiannau personol neu niweidiol gymryd rhan na mynychu'r gwrandawiad. Os bydd hyn yn berthnasol, ni ddylech geisio dylanwadu ar unrhyw Aelod arall mewn cysylltiad ag unrhyw gais trwyddedu.

**3. Hyfforddiant**

Penderfynwyd mai dim ond yr Aelodau hynny sydd wedi cael hyfforddiant priodol a fydd yn gymwys i eistedd ar unrhyw Is-bwyllgor Trwyddedu.

Dyletswydd a chyfrifoldeb Pennaeth Gwasanaethau a Rheoleiddio a Thai fydd darparu unrhyw hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cedwir cofnodion priodol o hyfforddiant a wneir gan Aelodau, er mwyn monitro datblygiad unigol ond hefyd, os bydd yr angen yn codi mewn unrhyw apêl, ystyrir ei bod yn hanfodol i allu arddangos proffesiynoldeb yr Aelodau i gymryd rhan mewn gwrandawiadau trwyddedu ar ran y Cyngor.

**4. Pwyllgorau / Is-bwyllgorau - Dirprwyo swyddogaethau**

Y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol am fabwysiadu Datganiad Polisi Trwyddedu.

Fel arall, caiff unrhyw swyddogaeth sy'n gysylltiedig â Deddf Drwyddedu 2003 eu dirprwyo i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio, sy'n cynnwys rhwng 12 Aelod. Yn ei dro, gall y Pwyllgor ddirprwyo rhai swyddogaethau i'r Is-bwyllgorau Trwyddedu (tri Aelod).

Pryd bynnag y bydd yr Is-bwyllgor yn eistedd i ystyried cais a gwneud penderfyniad arno, bydd y Cadeirydd a / neu'r Dirprwy Gadeirydd yn rhan o'r Is-bwyllgor hwnnw.

Bydd Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, neu ei enwebai, yn gyfrifol am sicrhau argaeledd a chymhwysedd Aelodau mewn cysylltiad ag unrhyw gais y mae'r Is-bwyllgor Trwyddedu'n delio ag ef, a bydd y swyddog yn sicrhau bod yr Aelodau yn meddu ar yr holl waith papur perthnasol sy'n gysylltiedig â'r cais. Bydd Datganiad o Fuddiannau Personol neu sy'n Rhagfarnu yn ffurfio rhan o'r broses ddethol.

## 5. Meddwl Agored

Mae angen i Aelodau arddangos eu bod wedi dod i'r gwrandawiad gyda meddwl agored. Ni ddylent fynegi barn ar unrhyw achos cyn y gwrandawiad. Mae cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol yn gwbl amhriodol wrth ddelio ag achosion unigol. Mae angen i Aelodau arddangos hefyd nad ydynt wedi dylanwadu'r ffordd y mae swyddogion yn cyflwyno achosion ger eu bron. Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth a roddir gan swyddogion cyn gwrandawiad ymwneud â phwyntiau gweithdrefnol yn unig, ac **nid** ar rinweddau'r achos.

Er mwyn dileu unrhyw amheuon ynglŷn â rhagderfyniadau, ystyrir y byddai'n arfer gorau i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu beidio ag eistedd ar Bwyllgorau Cynllunio na bod yn gysylltiedig ag unrhyw grwpiau sydd â diddordeb, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, pan fo cais eisoes wedi'i ystyried. Dylai Aelodau (os oes unrhyw amheuaeth) geisio cyngor y Swyddog Monitro.

## 6. Lobïo

Dylai Aelodau osgoi unrhyw ymgais i'w lobïo ar bob adeg. Er enghraifft, gallai unigolion wneud hyn neu gallai godi mewn cyfarfod Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref. Dylai Aelodau nodi natur gwrandawiadau ac esbonio na allant gymryd rhan mewn trafodaethau.

Yn Gryno:

- **Rhaid i Aelodau sydd ar y Pwyllgor Trwyddedu sicrhau <u>nad ydynt</u> yn caniatáu iddynt gael eu lobïo gan unrhyw un, naill ai o blaid neu yn erbyn cais.**
- **Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu <u>beidio</u> mynegi barn ar gais trwyddedu cyn unrhyw wrandawiad. Bydd hyn yn peryglu didueddrwydd yr Aelod ac yn eu hatal rhag eistedd ac ystyried y cais mewn unrhyw wrandawiad dilynol.**
- **Dylai Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu gyfeirio lobïwyr bob tro at y Swyddogion Trwyddedu.**
- **<u>Ni ddylai</u> Aelodau nad ydynt yn eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu lobïo Aelodau sydd yn eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu.**

## 7. Rôl Gynrychioliadol.

Nid oes amheuaeth y gallai rhai ceisiadau a wneir mewn cysylltiad â Deddf Drwyddedu 2003, beri problem anodd i Aelodau Rhanbarth Etholiadol sy'n eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu. Sut y gallant gyflawni eu rôl, os bydd cais yn un dadleuol? Un opsiwn fyddai gofyn i'r etholwr gysylltu ag Aelod Rhanbarth Etholiadol arall, neu yn achos Adran Aelod unigol, canfod Aelod o Ranbarth Etholiadol arall i'w cynorthwyo.

Gall unrhyw Aelod Rhanbarth Etholiadol gyflwyno sylw perthnasol.

Pe byddai Aelod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu yn cyflwyno sylwadau perthnasol, byddai hyn yn atal yr Aelod hwnnw rhag gallu eistedd yn y gwrandawiad perthnasol. Byddai hefyd yn golygu, pan fyddai'r Is-bwyllgor yn ymgilio i wneud eu penderfyniad, ni ddylai'r Aelod ymgilio gyda hwy.

Mewn achosion o'r fath, dylai'r Aelod ddarparu hysbysiad i Bennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai.

## 8. Datganiadau i'r Wasg

Ni ddylai Aelodau wneud unrhyw ddatganiadau i'r wasg cyn unrhyw wrandawiad. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau a dderbynnir i'r Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai. Bydd unrhyw sylw a dderbynnir o natur esboniadol yn unig ac ni fyddant yn mynegi barn ar rinweddau achos penodol. Ar ôl y gwrandawiad, ni ddylai Aelodau wneud unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau, rhag ofn y bydd apêl.

## 9. Gwrandawiadau

Dylid atgoffa Aelodau bod yna ffactorau pwysig i'w hystyried ac y byddant yn eu cynorthwyo i benderfynu ar unrhyw gais:

**Mae gan Aelodau ddyletswydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu statudol pryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniad o dan y Ddeddf.**

**Dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003 mae gan Aelodau ddyletswydd i ystyried y Canllaw Statudol wrth wneud eu penderfyniad. Mae'n rhaid cefnogi unrhyw wyriad oddi wrth y Canllaw hwn gyda rhesymau da.**

**Dylai'r Aelodau roi ystyriaeth i Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor wrth wneud unrhyw benderfyniad. Dylid ond cael unrhyw wyriad oddi wrth y Polisi pan fydd rheswm da dros wneud hynny.**

Mae'n hollbwysig i'r Is-bwyllgor ddelio â phob un o'r tri phwynt pwysig hyn, oherwydd bydd nid yn unig yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu tywys gan yr ystyriaethau cywir, bydd hefyd yn osgoi apeliadau drud a diangen ac adolygiad barnwrol posibl.

Er mwyn sicrhau bod yr unigolyn / achos sy'n ymddangos gerbron y Pwyllgor wedi derbyn gwrandawiad teg, dylid ystyried yr egwyddorion cyffredinol canlynol.

**Egwyddor 1: Gweithdrefn.**

Nid llys barn yw Gwrandawid yr Is-bwyllgor. Dylai'r Is-bwyllgor geisio sicrhau bod y gweithrediadau mor anffurfiol â phosibl. Mae angen rhywfaint o ffurfioldeb er mwyn sicrhau bod pob parti wedi derbyn gwrandawiad teg, a'i fod yn cynnig cyfle cyfartal iddynt gyflwyno eu hachos.

Mae yna rai amgylchiadau penodol pan ddylai gweithdrefnau gwahanol gael eu gweithredu. Mae'n rhaid dilyn egwyddorion cyfiawnder naturiol, a gall graddau'r hyn sy'n ofynnol amrywio yn unol ag amgylchiadau gwahanol. Mae egwyddorion sylfaenol cyfiawnder naturiol fel a ganlyn:

a. Ni ddylai unrhyw unigolyn fod yn farnwr yn ei achos ei hun

b. Ni ddylid delio ag unrhyw unigolyn heb iddynt gael cyfle i gyflwyno ei achos ei hun.

Bydd cymhwysiad manwl rheolau cyfiawnder naturiol ond yn berthnasol i rai penderfyniadau. Mae'r rhain yn aml yn berthnasol mewn amgylchiadau pan fo hawliau cyfreithiol a bywoliaeth unigolion wedi'u heffeithio. Mae'r protocol hwn yn nodi gofynion gweithdrefnol caeth. Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor a'i Aelodau weithredu mewn ffordd deg. Gallai methiant i gydymffurfio â'r pwyntiau perthnasol sydd wedi'u cynnwys o fewn y protocol hwn gan unrhyw Aelod, arwain at sefyllfa lle gallai penderfyniad fod yn destun her gyfreithiol.

**Egwyddor 2: Diben y gwrandawiad.**

Diben gwrandawiad yr Is-bwyllgor yw:

- galluogi'r rhai â hawl i ymddangos ddatblygu eu pwynt ac i brofi achos y parti arall; a
- cynorthwyo'r Is-bwyllgor i gasglu tystiolaeth a deall y materion perthnasol.

Dylid cadw'r dibenion sylfaenol hyn mewn cof os bydd mater gweithdrefnol yn codi.

**Egwyddor 3: Fformat y Gwrandawiad**

Mae'n hanfodol i'r Is-bwyllgor sefydlu'r rheolau sylfaenol ar y cychwyn, er mwyn i'r partïon wybod beth i'w ddisgwyl a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwy. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o wrthdaro yn ystod y gweithrediadau.

Bydd y Cadeirydd yn cyfeirio at 'fformat y gwrandawiad', a gaiff ei gynnwys ymhob set o bapurau. Er enghraifft, bydd yn nodi trefn cyflwyniadau ac argymhellion terfynol.

Dylai Aelodau ddarllen a chyfarwyddo eu hunain â'r adroddiad, y papurau a materion perthnasol. Dylai'r Cadeirydd wneud datganiad clir y dylid gwneud hyn, er mwyn sicrhau nad yw pwyntiau'n cael eu hailadrodd neu'n cael eu hesbonio'n helaeth.

Os bydd nifer o bobl yn cyfeirio at yr un pwynt, gallai'r Cadeirydd wahodd llefarydd i siarad â'r Is-bwyllgor a/neu groesholi tystion. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Cadeirydd bwysleisio y dylai'r Is-bwyllgor gydnabod y cryfder teimlad, ac na fydd y ffaith nad yw'n clywed gan yr holl bartïon am y pwynt hwn, yn golygu na chaiff eu sylwadau eu hystyried yn llawn. Yr hyn y mae'n ei olygu yw na fydd y pwynt yn magu cryfder drwy gael ei ailadrodd.

**Egwyddor 4: Tystiolaeth Achlust**

Tystiolaeth achlust yw pan fydd tyst yn rhoi tystiolaeth o rywbeth nad ydynt wedi'i weld na'i glywed, ond eu bod wedi clywed amdano. Er enghraifft:

- Mae fy nghymydog yn dweud eu bod wedi cael eu cadw ar eu traed drwy'r nos
- Derbyniais lythyr gan breswyliwr lleol a ddywedodd na allant gysgu oherwydd y gerddoriaeth o'r dafarn y drws nesaf.

Er y gall tystiolaeth achlust gael ei hystyried, yr Aelodau fydd yn penderfynu faint o bwys y byddant yn ei roi i'r dystiolaeth hon, oherwydd gallai fod yn llai, oherwydd na ellir profi'r dystiolaeth drwy groesholi.

**Egwyddor 5: Deisebau.**

Nid yw Llysoedd/Ymchwiliadau wedi rhoi llawer o bwys i ddeisebau yn y gorffennol, oherwydd nid yw'n anodd cael pobl i'w llofnodi, a'r unig dystiolaeth wirioneddol sydd ar gael i Aelodau yw barn ysgrifenedig y llofnodwyr.

Mae'n bwysig nad yw Aelodau'n diystyru deisebau heb ystyriaeth, ond dylent benderfynu faint o bwys a roddant iddynt o safbwynt tystiolaethol.

**Egwyddor 6: Sylwadau Perthnasol.**

Os bydd unrhyw Aelod yn derbyn gohebiaeth gan Barti sydd â Diddordeb, sy’n gysylltiedig â chais trwyddedu, a allai fod yn destun gwrandawiad, dylid anfon copi o’r ohebiaeth honno at y Gwasanaeth Trwyddedu ar unwaith.

Mewn gwrandawiad, gallai Awdurdod Cyfrifol neu Barti sydd â Diddordeb benderfynu dibynnu ar eu sylwadau ysgrifenedig a arweiniodd at y gwrandawiad, ond ni allant ychwanegu sylwadau pellach i’r rhai a ddadlennwyd i’r ceisydd cyn y gwrandawiad.  Gallant, os dymunant, ymhelaethu ar eu sylwadau presennol.

Bydd sylwadau perthnasol ond yn cael eu cyflwyno i Aelodau os nad ydynt yn ddisylwedd neu’n flinderus a’u bod wedi’u gwneud yn unol â gofynion statudol y Ddeddf.

**Egwyddor 7: Trin tystion yn deg.**

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw diogelu tystion rhag cael eu dwrdio neu eu torri ar draws gan unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol neu unrhyw barti arall sy’n bresennol yn y gwrandawiad yn gyfartal a theg.

Fodd bynnag, gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw dyst yn y gweithrediadau ateb y cwestiwn gwirioneddol a’u hatal rhag gwyro oddi wrth y pwnc.

Dylai’r Cadeirydd ymyrryd hefyd os na fydd unrhyw gwestiynau arweiniol yn cael eu gofyn.  Mae’r arfer hwn yn annheg i’r partïon eraill, a hefyd, nid yw’n ddefnyddiol i’r tyst na’r Is-bwyllgor, oherwydd nid tystiolaeth wirioneddol y tyst ydyw.

**Egwyddor 8: Tegwch i bawb.**

Gall yr Is-bwyllgor, os bydd nifer y tystion a swm y dystiolaeth yn anghymesur, bennu cyfyngiadau amser ar gyfer cyflwyno, ac mae’n rhaid i bob parti ufuddhau i’r cyfyngiadau hyn.

Os bydd gan Aelod gwestiynau ar ddiwedd tystiolaeth tyst, dylid cyfeirio’r rhain drwy’r Cadeirydd.

**Egwyddor 9: Materion ailadroddus.**

Lle bynnag y bo’n bosibl, gall y Cadeirydd egluro materion drwy wirio p’un a yw’r pwyntiau’n cael eu herio mewn gwirionedd, neu drwy nodi bod yr Is-bwyllgor wedi clywed a deall y pwynt (efallai y bydd hyn wedi’i gwmpasu ym mhapurau’r achos neu gan dyst blaenorol)

**Egwyddor 10: Defnydd rhagweithiol o amodau**.

Mae llawer o geisiadau sy’n cael eu herio’n dod i ben pan fydd y partïon yn trafod amodau’n synhwyrol.  Yn aml, gellir cymhwyso amodau sydd yn dderbyniol i’r ceisydd, ond sydd hefyd yn datrys holl faterion y gwrthwynebwyr.

Dylai’r Is-bwyllgor ystyried bob amser p’un a ellir goresgyn gwrthwynebiadau drwy osod amodau.
Dylai’r Cadeirydd wahodd sylwadau ar amodau arfaethedig cyn eu gosod.

**Egwyddor 11: Cyngor.**

Pan fydd Aelodau'n ceisio cyngor ar unrhyw bwynt, cyfreithiol neu fel arall, efallai na fydd yn ymwneud yn llwyr â Deddf Trwyddedu 2003, mae'n rhaid ei roi neu ei ailadrodd mewn sesiwn agored a dylai'r Cadeirydd wahodd partïon sy'n gysylltiedig â'r gwrandawiad i roi eu sylwadau arno.

**Egwyddor 12: Proses gwneud penderfyniadau**

Dylai'r Is-bwyllgor glywed yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac ystyried yr holl ffactorau ac amgylchiadau perthnasol. Ni ddylai Aelodau wneud penderfyniad ar y cais nes y bydd y gwrandawiad wedi dod i ben ac, yr un mor bwysig, ni ddylai Aelodau roi'r argraff eu bod wedi gwneud hynny.

Mae gan y partïon hawl i wybod pam eu bod wedi ennill neu golli. Yn ogystal, gallai rhesymau amheus neu resymau sydd wedi'u cyflwyno'n wael wanhau achos Awdurdod Trwyddedu mewn unrhyw apêl.

Mae'n rhaid i'r Is-bwyllgor:

- **Sicrhau bod pob sylw a phob sylw perthnasol yn cael eu cynnwys yn eu penderfyniad.**

- **Nodi'r graddau y mae wedi ystyried y Canllaw Statudol a'r Datganiad Polisi Trwyddedu.**

- **Wrth wrthod yn llwyr neu'n rhannol, neu osod amodau, dylid nodi ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn hybu unrhyw amcan trwyddedu penodol, a pham y gwnaed hynny.**

**10. Pan fo amheuaeth.**

Dylai Aelodau ofyn am gyngor Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, neu yn ei absenoldeb, y Prif Swyddog Trwyddedu a Safonau masnach, neu gynrychiolydd Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu.

## ADRAN 10 - TREFNIADAU AR Y CYD

### 10.1 Cyflwyniad

Mae yna nifer o amgylchiadau pan fydd gan y Cyngor neu'r Cabinet yr hawl i gyflawni swyddogaethau penodol ar y cyd ag awdurdod lleol arall.

### 10.2 Trefniadau i hyrwyddo lles

Er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal, gall y Cyngor:

(a) lunio trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un neu unrhyw gorff;

(b) cydweithredu gyda, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw unigolyn neu gorff; ac

(c) ymarfer ar ran yr unigolyn neu'r corff hwnnw unrhyw swyddogaethau'r unigolyn neu'r corff hwnnw.

### 10.3 Trefniadau ar y Cyd

(a) Gall y Cyngor sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol a/neu eu swyddogion i gyflawni swyddogaethau mewn unrhyw un o’r awdurdodau sy’n cymryd rhan, neu gynghori’r Cyngor. Gallai trefniadau o’r fath gynnwys penodi cydbwyllgor, gan gynnwys Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu gyda’r awdurdodau lleol eraill hyn.

(b) Gall y Cabinet sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau sydd yn swyddogaethau gweithredol. Gallai trefniadau o’r fath gynnwys penodi cydbwyllgor gyda’r awdurdodau lleol eraill hyn. Ar wahân i’r hyn a nodir isod, neu’r hyn a ganiateir neu sy’n ofynnol dan y Gyfraith, gall y Cabinet ond benodi Aelodau Cabinet i gydbwyllgorau o’r fath ac nid oes rhaid i’r Aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol cyffredinol y Cyngor.

(c) Caiff y Cabinet benodi aelodau i Gydbwyllgor o’r tu allan i’r Cabinet lle bo gan y Cydbwyllgor swyddogaethau dros ran yn unig o ardal y Cyngor, ac mae’r ardal honno’n llai na dwy ran o bump o’r Cyngor o ran arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o’r fath, caiff y Cabinet benodi i’r Cydbwyllgor unrhyw Gynghorydd sy’n aelod dros adran etholiadol sy’n gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn yr ardal. Nid yw’r gofynion sydd ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o’r fath.

(d) Wrth ystyried sefydlu cydbwyllgor, dylai’r Cyngor a’r Cabinet ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ynglŷn â sefydlu cydbwyllgorau a’r amgylchiadau ble mae’n briodol gwneud hynny.

**10.4 Hawl i Wybodaeth**

(a) Mae'r Rheolau Hawl i Wybodaeth yn Rhan 15 y Cyfansoddiad hwn yn berthnasol.

(b) Os yw holl aelodau cydbwyllgor yn aelodau o’r Cabinet ym mhob un o’r awdurdodau sy’n cymryd rhan, yna mae’r drefn hawl i wybodaeth yr un fath â’r un sy’n berthnasol i’r Pwyllgor Gweithredol.

(c) Os yw’r cydbwyllgor yn cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet yn unrhyw un o’r awdurdodau sy’n cymryd rhan, yna bydd y rheolau hawl i wybodaeth yn Rhan VA, Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn berthnasol.

**10. 5 Dirprwyaeth i ac oddi wrth awdurdodau lleol eraill**

(a) Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i Awdurdod Lleol arall neu i Gabinet awdurdod lleol arall mewn rhai amgylchiadau.

(b) Gall y Cabinet ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i Awdurdod Lleol arall neu i Gabinet awdurdod lleol arall mewn rhai amgylchiadau.

(c) Y Cyngor Llawn sydd i benderfynu a ddylid derbyn dirprwyaeth gan awdurdod lleol arall.

**10.6 Contractio**

Gall y Cyngor (o ran Swyddogaethau Anweithredol) a’r Cabinet (o ran Swyddogaethau Gweithredol) gontractio swyddogaethau allan i gorff neu sefydliad arall:

10.6.1 gallai Swyddog sy’n destun gorchymyn dan Adran 70 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 arfer hyn; neu

10.6.2 dan drefniadau contractio sy’n nodi bod y Contractwr yn gweithredu fel asiant ar ran y Cyngor o dan yr egwyddorion contractio arferol, ar yr amod nad oes unrhyw ddirprwyo ar allu’r Cyngor i wneud penderfyniadau yn ôl ei ddisgresiwn.

## ADRAN 11 - CYDBWYLLGORAU CORFFOREDIG

### 11.1 Cyflwyniad

Gall cydbwyllgorau corfforedig gael eu sefydlu: -

11.1.1 gan Weinidogion Cymru, i ymgymryd â swyddogaethau cludiant, cynllunio strategol, datblygu economaidd a/neu wella addysg y Cyngor; neu

11.1.2 gan y Cyngor, i ymgymryd ag unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor.

### 11.2 Cydbwyllgorau Corfforedig

11.2.1 Gall y Cyngor, ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill, wneud cais fel cyd-bwyllgor i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 72 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig i ymarfer un o swyddogaethau'r awdurdodau hynny neu'r swyddogaeth lles economaidd, mewn perthynas â phrif ardaloedd yr awdurdodau hynny.

11.2.2 Ni ddylai'r Cyngor wneud cais o'r fath oni bai a hyd nes y bydd wedi ymgynghori â: -

(a) phobl leol yn ardal y Cyngor;

(b) cynghorau cymuned yn ardal y Cyngor;

(c) awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol, y mae unrhyw ran ohono o fewn ardal y Cyngor;

(d) y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

(e) pob undeb llafur (yn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992) sy'n gydnabyddedig gan y Cyngor; ac

(f) unrhyw un arall y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol.

11.2.3 Gall y Cyngor, ar y cyd â phob awdurdod lleol arall ar gyfer y prif ardaloedd mewn ardal cyd-bwyllgor corfforedig, wneud cais i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried gwneud rheoliadau o dan adran 80 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor sy'n sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig y mae'r Cyngor yn aelod ohono.

11.2.4 Ni ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r pŵer yn adran 11.2.3 i ofyn i Weinidogion Cymru ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor corfforedig er mwyn hepgor neu addasu swyddogaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau cludiant, cynllunio strategol, datblygu economaidd neu wella addysg y Cyngor.